# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 11

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Amrywiol*

### 184 Ymchwil a darparu gwybodaeth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud, comisiynu, neu gynorthwyo i wneud, ymchwil i unrhyw fater sy'n gysylltiedig—

(a) â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon,

(b) â'r swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (12),

(c) â swyddogaethau'r Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf hon, neu

(d) â swyddogaethau'r Byrddau Diogelu.

(2) Caiff awdurdod lleol wneud, comisiynu, neu gynorthwyo i wneud, ymchwil i unrhyw fater sy'n gysylltiedig—

(a) ag unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (12), neu

(b) â swyddogaethau'r Byrddau Diogelu.

(3) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol wneud, comisiynu, neu gynorthwyo i wneud, ymchwil i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad—

(a) â'r modd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (12), a

(b) â'r personau y mae'r awdurdod wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â hwy.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 184 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ddarparu gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad—

(a) â'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, a

(b) â'r personau y mae wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â hwy.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bartner arweiniol Bwrdd Diogelu ddarparu gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad â'r modd y mae'r Bwrdd hwnnw yn cyflawni ei swyddogaethau.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gwirfoddol ddarparu gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad ag oedolion sydd wedi eu lletya gan y sefydliad neu ar ei ran.

(8) Rhaid cydymffurfio â gofyniad o dan is-adran (4), (5), (6) neu (7) drwy ddarparu'r wybodaeth ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw adeg sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(9) Caiff yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu o dan is-adran (4) gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant unigol ac sy'n golygu bod modd adnabod plant unigol, ond dim ond os oes angen yr wybodaeth honno er mwyn llywio—

(a) y broses o adolygu a datblygu polisi ac arfer sy'n ymwneud â llesiant plant, neu

(b) y broses o wneud ymchwil sy'n ymwneud â llesiant plant.

(10) Rhaid i Weinidogion Cymru ym mhob blwyddyn osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru grynodeb o'r wybodaeth a ddarperir iddynt o dan is-adrannau (4), (5), (6) a (7), ond rhaid i'r crynodeb beidio â chynnwys gwybodaeth sy'n golygu bod modd adnabod plentyn unigol neu sy'n caniatáu i blentyn unigol gael ei adnabod.

(11) Yn yr adran hon—

ystyr "Bwrdd Diogelu" ("*Safeguarding Board*") yw Bwrdd Diogelu Plant neu Fwrdd Diogelu Oedolion a sefydlir o dan adran 134, ac

ystyr "partner arweiniol Bwrdd Diogelu" ("*the lead partner of a Safeguarding Board*") yw'r partner Bwrdd Diogelu a bennir fel y partner arweiniol mewn rheoliadau o dan adran 134.

(12) Y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adrannau (1), (2) a (4) yw—

(a) unrhyw swyddogaeth awdurdod lleol o dan y Ddeddf hon;

(b) unrhyw swyddogaeth awdurdod lleol fel partner iechyd meddwl lleol o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 184 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 184 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 184 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))